**ATODIAD 2a**

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

| **Manylion y Bid** |
|---|
| **ADRAN ADDYSG (G.T.)** |
| **Bid 1** **Cludiant Tacsis Ysgolion - £400,000 Parhaol**<br><br>Rhagwelir gorwariant o £721,130 yn 2019/20 yn seiliedig ar gyllideb o £2,100,340 o'i gymharu ag ymrwymiadau o £2,821,470:-<br>• Tacsis ysgolion a weithredir gan yr Uned Cludiant Integredig £2,596,620<br>• Tacsis rhieni a weithredir gan yr Uned Cludiant Integredig £101,340<br>• Eraill - yn cynnwys cytundebau gyda Rheilffordd Cambrian a chytundebau tacsis "Pecyn 25" a weithredir gan yr Adran Addysg a Chludiant All Sirol a weithredir gan Awdurdodau eraill £123,510<br><br>Sut – byddai'r bid yn lleihau'r gorwariant yng nghyllideb refeniw'r Adran.<br><br>Risgiau - peidio cwrdd â gofynion "Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".<br><br>Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais, ond mae'r Adran dan gyfarwyddyd i ddod â swm y gorwariant o dan reolaeth. |
| **Bid 2** **Integreiddio – Datganiadau / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) - £193,000 Parhaol**<br><br>Ers 2016/17, mae yna gynnydd sylweddol blynyddol yng nghost Datganiadau/CDU, sydd yn bennaf wedi'i ariannu trwy leihau dyraniad 'Integreiddio Arall'. Ond bellach mae'r 'Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad' yn tynnu o'r pennawd yma, ac felly gwneir bid am y diffyg parhaol o £193,000.<br><br>Os fydd y patrwm o gynnydd cost sylweddol rhwng 2016/17 a 2018/19 yn parhau yn 2019/20, bydd diffyg o £400,000 ychwanegol yn y pennawd yma. Mae Adolygiad Annibynnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd sy'n edrych i mewn i'r gweithdrefnau, meini prawf, a thueddiadau dros y 3-5 mlynedd diwethaf i ddarganfod a oes tueddiadau, ardrawiad mewnlifiad a phlant mewn gofal yn dod i mewn i'r sir; cefnogaeth trawsadrannol i deuluoedd bregus a baich hyn i'r Adran Addysg; effaith cychwyn y defnydd o Gynlluniau Datblygu Unigol yn hytrach Asesiadau Statudol.<br><br>Sut – byddai'r cyllid ychwanegol yn ariannu'r diffyg yn sgil colli cyfraniad y gyllideb 'Integreiddio Arall'.<br><br>Risgiau - petai'r bid yn cael ei wrthod byddai rhaid torri cwantwm ysgolion yn 2019/20.<br><br>Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais, ond mae'r Adran dan gyfarwyddyd i gadw'r gyllideb o dan reolaeth. |

**ATODIAD 2a**

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

| **ADRAN CYLLID (P.J.)** |
|---|
| **Bid 3 Cynnydd ym mhrisiau Meddalwedd Microsoft - £97,890 Parhaol**<br><br>Mae'r cytundeb am feddalwedd Windows ac Office (cynnwys e-bost, Skype a Sharepoint) ar y pris cyfredol yn dod i ben 30 Mehefin 2019, ac mae'r meddalwedd yma'n greiddiol i'n defnydd o gyfrifiaduron a does dim opsiwn ymarferol ond parhau i ddefnyddio'r meddalwedd hyn.<br><br>Sut - Byddai ariannu'r gofyn ychwanegol yn ein galluogi i barhau i ddefnyddio meddalwedd sy'n greiddiol i waith dydd i ddydd unrhyw swyddog sy'n defnyddio cyfrifiaduron.<br><br>Risgiau - Pe na fyddai cefnogaeth ariannol ychwanegol, byddwn yn wynebu cwtogi'r nifer o ddefnyddwyr cyfrifiaduron o 2,182 i 1,524. Byddai'n effaith llai andwyol na pheidio defnyddio meddalwedd Windows ac Office o gwbl. Mi fyddai'r newid yma yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i gefnogi a darparu gwasanaethau i drigolion y Sir.<br><br>Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais. |

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

| **ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (G.R.)** |
|---|
| **Bid 4** **Atal Digartrefedd - £35,000 Parhaol**<br><br>Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar y Cyngor, i gynorthwyo i atal digartrefedd neu ddod o hyd i rywle arall i fyw ar gyfer pawb sy'n cyflwyno eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Ers i'r Ddeddf yma ddod i rym yn Ebrill 2015, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer yr achosion sydd yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth digartrefedd ynghyd â chynnydd yn y nifer pobl sy'n mynd i fewn i lety dros-dro.<br><br>Tra yn ymdopi â'r cynnydd sylweddol mae'r gwasanaeth wedi colli staff yn y cylch arbedion yn 2015/16. Mae hyn yn golygu fod y nifer o achosion fesul staff wedi cynyddu yn sylweddol sydd wedi arwain at llai o amser i wneud gwaith atal digartrefedd a gwaith symud pobl ymlaen ac allan o lety dros dro. Mae cynnydd hefyd yn y nifer yr achosion cymhleth sydd yn golygu bod angen treulio mwy o amser fesul achos i ddod o hyd i ddatrysiadau.<br><br>Mae adolygiad diweddar o'r gwasanaeth gan ymgynghorydd annibynnol (Arc4, Medi 2018) yn rhagweld y bydd y cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth yn parhau. Mae hyn yn gyffredinol ar draws Awdurdodau Lleol eraill a gwyddom fod Cyngor Conwy a Dinbych wedi buddsoddi i ymateb i'r her.<br><br><u>Sut</u> - cyllido 1 Gweithiwr Achos Atebion Tai. Byddai hyn yn galluogi'r Tîm i wneud mwy o waith ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd drwy osgoi gorfod lleoli pobl mewn llety dros dro ac yn ei dro yn lleihau'r baich ariannol a'r angen i ddefnyddio trefniadau tymor byr.<br><br><u>Risgiau</u> - methiant i gyflawni cyfrifoldebau statudol i atal digartrefedd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014; cynyddu'r amser a gymerir i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r cleient; nifer o bobl yn cael eu lletya mewn llety dros-dro yn cynyddu a all ansefydlogi unigolion bregus ynghyd â chynyddu'r costau.<br><br><u>Sylwadau</u> - Argymhellir cefnogi'r cais. |
| **Bid 5** **Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo - £286,800 Parhaol**<br><br>Ariannu pecynnau gofal 11 unigolyn sydd yn trosglwyddo o'r Adran Plant a Theuluoedd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (Anabledd Dysgu). Bydd hyn yn cynnwys Taliadau Uniongyrchol, Llety Cefnogol neu Gwasanaeth Dydd i gwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd.<br><br><u>Sut</u> - galluogi teuluoedd/gofalwyr i barhau i ofalu am unigolion sydd ag anghenion sylweddol, gan roi cyfle i'r unigolion ddatblygu sgiliau pellach gyda'r bwriad o hybu annibyniaeth.<br><br><u>Risgiau</u> - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r posibilrwydd bydd y sefyllfa gartref yn torri lawr a allai arwain at orfod lleoli'r unigolion mewn lleoliadau drytach.<br><br><u>Sylwadau</u> - Argymhellir cefnogi'r cais. |

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

**Bid 6** **Therapydd Galwedigaethol – Anabledd Dysgu - £23,000 Parhaol**

*(Bid am un therapydd i'w rannu rhwng yr adran yma a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).*

Nid oes arbenigedd Therapi Galwedigaethol wedi bod yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu ers rhai blynyddoedd bellach, ac mae effaith hynny i'w weld yn eu gallu i weithio fel tîm amlddisgyblaethol, a hefyd wrth ymdrin ag achosion cymhleth (e.e. achosion llys ble mae angen adroddiadau arbenigol). Mewn cyfnod ble rydym yn trawsffurfio gwasanaethau, mae datblygu'r rôl yma yn ein gwasanaethau yn hanfodol ar sawl lefel:-

Strategol: Er mwyn ein cynghori ar ddatblygiadau newydd, yn enwedig ar ddyluniad yr adeiladau rydym yn eu trawsffurfio i fod yn hybiau a hefyd o ran ein datblygiadau adeiladau newydd.

Gweithredol: Rydym angen y rôl yma ar lefel ataliol a hefyd i gyd-weithio gyda rhai o'r achosion dwys a chymhleth. Bydd modd i'r rôl yma gyd-weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol i gynghori gweithwyr eraill a'r teuluoedd o ran ymdrin ag ymddygiad heriol. Byddai modd i'r rôl yma gyd-weithio gyda'r achosion dwys a chymhleth er mwyn ceisio llunio cynllun chefnogaeth mewn modd creadigol i ddiwallu anghenion mewn dull person canolog.

<u>Sut</u> - Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn bresennol, y gwasanaeth oedolion sydd yn cynnig y gwasanaeth, nid yw'n ddigon arbenigol i gyfarch anghenion oedolion gydag anableddau dysgu gan ganolbwyntio yn benodol ar asesiadau o ran offer. Y nod yw datblygu gwasanaeth sydd yn canolbwyntio ar ymdrin ag ymddygiad heriol ac addasu'r amgylchedd er mwyn lleihau ymddygiad anodd a heriol. Byddai hefyd lle i'r swyddogaeth yma gynghori ein staff/gweithiwr cefnogol sydd yn aml yn ymdrin ag ymddygiadau heriol ac angen y gefnogaeth a chyngor arbenigol yma.

<u>Risgiau</u> - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a diffyg arbenigedd Therapi Galwedigaethol yn y maes Anabledd Dysgu.

<u>Sylwadau</u> - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

## Bid 7 Gweithwyr Cymdeithasol – Anabledd Dysgu - £45,500 Parhaol

Ers 2013, mae dwy swydd Gweithiwr Cymdeithasol Anableddau Dysgu wedi bod yn cael eu hariannu dros-dro o Gynllun y Cyngor. Mae nifer o fuddion i'r ddwy swydd gan gynnwys, craffu ansawdd gwasanaeth, adolygu pecynnau, asesiadau a chynlluniau gofal; casglu gwybodaeth i broffilio gwasanaeth a bwydo i mewn i'r drefn gomisiynu ar gyfer cynllunio darpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol; rhyddhau amser pob gweithiwr i reoli fwy o achosion a chynllunio ymlaen yn fwy manwl; mwy o gapasiti i adolygu pecynnau; drwy adolygu yn rheolaidd, gallu adnabod arbedion yn syth ac addasu cynlluniau gofal yn unol â'r asesiad anghenion; datblygu pwysigrwydd adolygu ac arbedion ymhellach yn y gwasanaeth; darparu gweithwyr gyda'r hygrededd proffesiynol i ddatblygu a newid gwasanaethau mewn dull creadigol yn sgil adolygiadau manwl; gwella ansawdd gwasanaeth a chraffu darparwyr.

Sut - Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn hanesyddol, roedd gan y Gwasanaeth Anableddau lai o Weithwyr Cymdeithasol na thimoedd eraill. Ers 2013, pan ddatblygwyd y capasiti yma fel rhan o'r gwasanaeth, mae wedi cael effaith sylweddol, yn cynnwys eu gallu i ddiwallu anghenion mewn modd creadigol, adolygu anghenion yn amserol, cyfarch dros £600k o arbedion, ac adennill symiau sylweddol drwy herio'r drefn Gofal Iechyd Parhaus a'r lleihad mewn niferoedd o oedolion yn derbyn gwasanaethau yn all-sirol i Wynedd.

Yn bresennol, mae dwy swydd ar sail dros dro. Mae'r tîm yn sefydlog ac yn gweithio yn dda. Byddai'r bid yma yn creu un swydd barhaol ar y strwythur. Mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn datblygiad staff a'r tîm i gyd (mewn cyfnod positif o drawsffurfio).

Risgiau – peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a risg o golli aelodau staff allweddol.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

## Bid 8 Cofrestru Gweithwyr Gofal - £38,280 Un Tro

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 yn nodi fod rhaid cadw cofrestr o weithwyr y maes gofal. Mae Uwch-weithwyr eisoes yn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ond bellach mae disgwyliad i staff gofal rheng flaen e.e. Gofalwyr Cartref a Staff mewn Cartrefi Preswyl gofrestru yn flynyddol.

Mae angen buddsoddi amser yn hyfforddi a sicrhau fod staff rheng flaen yn gwybod sut i gofrestru a'r hyn sy'n ofynnol arnynt o ran hynny. Cyflwynwyd bid yn wreiddiol yn 2018/19, ac mae swyddog wedi ei phenodi i'r swydd yma o Awst 2018 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019. Mae hwn yn gais pellach am adnodd dros-dro i barhau gyda'r gwaith yma yn 2019/20 a 2020/21. Mae staff gofal cartref wedi dechrau cael eu hyfforddi, a rhagwelir y bydd yn cefnogi i gofrestru hyd at 30 aelod o staff y mis. Rhagwelir y byddai'r adnodd ychwanegol yma yn parhau gyda'r gwaith o gofrestru gweithlu gofal cartref yn ystod 2019/20 yn bennaf, gyda gweithwyr cartrefi preswyl yn cael sylw yn 2020/21.

Sut – er ymateb yn llawn i ofynion statudol a chefnogi'r gweithlu.

Risgiau - methu cyflogi staff ar gyfer cynnal ein gwasanaethau statudol o ran gofalu am drigolion mwyaf bregus.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

## Bid 9 Hwb Diogelu - £51,000 Parhaol

Sefydlu Hwb Diogelu o fewn y Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd drwy ariannu swydd arweiniol i sicrhau fod yr Awdurdod yn cwrdd â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â materion diogelu fel sydd yn cael ei nodi yn rhan 7, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd cyfrifoldeb am ddatblygu'r Hwb Diogelu i dderbyn pob ymholiad diogelu'r Adran Oedolion ynghyd â phenderfynu a chytuno ar sut i reoli'r ymholiadau/ cyfeiriadau er mwyn sicrhau bod trigolion yn ddiogel. Bydd yn sicrhau fod cyfrifoldebau cyfreithiol a pholisïau adrannol yn y maes Diogelu yn cael eu cwrdd.

Bydd yn rhoi un pwynt cyswllt i holl gyfeiriadau ac ymholiadau diogelwch fydd yn sicrhau ymateb amserol ac addas gan atal oedi a dyblygu.

Mae Arolygaeth Gofal Cymru wedi nodi'r angen i gryfhau trefniadau mewn perthynas â materion diogelu.

Sut – bydd cael un pwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu yn sicrhau cysondeb yn yr ymateb ar draws ardaloedd a gwasanaethau; swyddog yn datblygu arbenigedd yn y maes ac yn rhoi cyngor ac arweiniad penodol i'r gwasanaeth, ac yn gweithio yn agos iawn gyda'r timau ardal a datblygu perthynas agos gyda phartneriaid; yn cefnogi'r Adran i sicrhau fod asesiadau Lles Gorau DOLS yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion cyfreithiol.

Risgiau - anghysondebau o ran ymateb i ymholiadau a chyfeiriadau diogelu ar draws ardaloedd a gwasanaethau; heb un un pwynt cyswllt, nid yw'r gwasanaeth yn rhwydd i unigolion gysylltu felly risg o oedi wrth ymateb; dyblygu neu ddiffyg gweithredu gan nad oes neb yn cymryd rôl arweiniol; pwysigrwydd y gwaith ddim yn cael ei amlygu wrth ychwanegu dyletswyddau i rolau arweinwyr; diffyg arbenigedd yn cynyddu risg i ddiogelwch a llesiant; heb unigolyn dynodedig, bydd yn anodd datblygu perthynas gyda phartneriaid megis swyddogion diogelu y Bwrdd Iechyd.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

## Bid 10 Adnoddau Parhaol i staffio Unedau Dementia newydd - £808,000 Parhaol

Cais am adnoddau parhaol i staffio Unedau Dementia newydd yn Llys Cadfan, Plas Hafan, Plas Hedd a Bryn Blodau i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal o fewn Cynllun y Cyngor ac i gyfarfod gofynion Arolygaeth Gofal Cymru o ran staffio rotas cartrefi preswyl.

Sut – Bydd pob un o'r unedau dementia yn gartref i 7 neu 8 o unigolion.

Risgiau – Heb y buddsoddiad yma, bydd cyfraniad y pedwar cartref at amcan Cynllun y Cyngor i gynnig gofal dementia a gofal diwedd oes / mwy dwys yn agosach at adref yn cael ei gyfyngu.

Sylwadau – Mae penderfyniad Cabinet 27 Tachwedd 2018 i'w gymeradwyo wedi rhagfarnu penderfyniad ar 'bid' parhaol.

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

| **ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (D.M.)** |
|---|
| **Bid 11** **Gweithiwr Cymdeithasol x2 - £100,000 Parhaol**<br><br>Er mwyn rheoli'r cynnydd yn y galw am wasanaeth yn sgil y cynnydd yn nifer yr achosion llys, cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd yn byw adref yn dilyn achos llys, mae’r Adran wedi gorfod sicrhau bod gan dîm plant Arfon ddigon o weithwyr cymdeithasol er mwyn dygymod gyda’r llwyth gwaith a sicrhau nad yw llwyth gwaith yn afresymol. Mae cynnal lleoliadau hefo’r rhiant yn fwy heriol na chefnogi lleoliadau maeth a phreswyl oherwydd bod y cynlluniau yn parhau i fod gyda lefel o risg yn dilyn achos llys.<br><br>Er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn mewn gofal weithiwr cymdeithasol penodedig, mae'r adran wedi bod yn adrodd gorwariant ar swyddi gwaith cymdeithasol dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda 2.5 swyddog yn cael eu cyflogi yn ychwanegol.<br><br>Sut – bydd yn galluogi’r tîm i barhau i weithredu fel y mae ar hyn o bryd, ond bydd yn creu dwy swydd barhaol ar y strwythur.<br><br>Risg – bydd yr Adran yn parhau i orwario ar gyfer staffio yn nhîm plant Arfon.<br><br>Sylwadau - Argymhellir cefnogi’r cais. |
| **Bid 12** **Capasiti ychwanegol Therapi Galwedigaethol - £23,000 Parhaol**<br><br>*(Bid am un therapydd i’w rannu rhwng yr adran yma a’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).*<br><br>Mae gwasanaeth Derwen i blant anabl yn integredig gyda’r gwasanaeth iechyd. Mae’r cyfrifoldeb i asesu addasiadau ar gyfer plant anabl yn disgyn ar Therapydd Galwedigaethol y Cyngor. Yn ogystal mae’r Therapydd yn darparu hyfforddiant ar offer symud a thrin cyn i staff allu defnyddio cyfarpar wrth weithio efo’r plant.<br><br>Mae rhestr aros am asesiadau gan y Therapydd Galwedigaethol a dim ond un Therapydd Galwedigaethol sydd ar draws y Sir. Mae achosion cymhleth hefyd yn golygu na ellir rhoi sylw i achosion llai cymhleth ddigon buan.<br><br>Mae’r llwyth gwaith yn ormod i un swyddog llawn amser ac yn absenoldeb y Therapydd Galwedigaethol, nid oes posib gweithredu.<br><br>Sut – cynyddu capasiti Therapi Galwedigaethol a fyddai’n lleihau rhestr aros, lleihau amser disgwyl am asesiad ac felly’n darparu gwasanaeth neu addasiad yn llawer cynt.<br><br>Risg – defnydd anghywir o offer ac felly risg o niwed i blentyn ac/neu aelod staff, cwynion oherwydd methiant gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth ac o bosib camau gweithredu / bygythiad i gofrestriad y Gwasanaeth Cefnogol gan CSSIW.<br><br>Sylwadau - Argymhellir cefnogi’r cais. |

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

## Bid 13 Cyfweliadau dychwelyd adref - £20,000 Parhaol

Mae ecsploetiaeth plant yn rhywiol yn un o flaenoriaethau diogelu ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant. Yn y gorffennol mewn sefyllfaoedd lle bo plant mewn gofal yn mynd ar goll o ofal ac yna yn dychwelyd, byddai'r heddlu yn cynnal 'cyfweliad dychwelyd adref' i gael gwybodaeth am y cyfnod y buont ar goll a sicrhau dim niwed. Ychydig o flynyddoedd yn ôl bu i'r heddlu sicrhau grant, a chomisiynwyd Barnardos Cymru i gynnal y cyfweliadau yma ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal awdurdodau lleol Gogledd. Pan ddaeth cyfnod y grant i ben, datganwyd disgwyliad i'r awdurdodau lleol fod yn cynnal y cyfweliadau yma, ac fe gymeradwywyd hyn gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol a gan y Prif Weithredwyr ar draws y Gogledd.

Mae'r cyfweliadau dychwelyd adref i blant Gwynedd sydd yn mynd ar goll yn cael eu cynnal gan y gweithiwr cymdeithasol, a'r wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r heddlu. Niferoedd bychan iawn yw'r rhain o'u cymharu â'r niferoedd nad ydynt yn blant mewn gofal i Wynedd, ond wedi eu lleoli yma mewn darpariaethau preswyl preifat. Nid oes adnoddau yn y gwasanaeth i gyfarfod y gofyn yma heb adnoddau ychwanegol.

Sut - bydd yn darparu adnodd ychwanegol i'r sefydliad ar lefel gweithiwr allweddol fydd yn cael ei leoli yn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a bydd yn sicrhau y byddem yn cydymffurfio gyda disgwyliadau diogelu rhanbarthol.

Risg – dim yn cydymffurfio gyda gofynion diogelu plant a phobl ifanc fel sydd wedi ei benderfynu gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol. Yn ychwanegol, byddai diffyg cydymffurfiaeth yn y maes yma yn risg o feirniadaeth gan yr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

## Bid 14 Lleoliadau Plant - £657,000 Parhaol

Er bod strategaethau mewn lle i ddefnyddio lleoliadau'n effeithlon ac i graffu'r trefniadau'n rheolaidd, nid oes rheolaeth ar natur a nifer y ceisiadau. Mae nifer o geisiadau eleni am achosion dwys a chymhleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn anorfod. Mae'r adran wedi ymdrechu i leihau'r nifer o leoliadau preswyl fel rhan o gynllun dechrau i'r diwedd, ond mae'r gofyn eleni am y math yma o leoliad yn llawer uwch na'r disgwyl.

Sut - mae'r lleoliadau cyfredol yn ymrwymo'r gyllideb bresennol, ac felly nid yw'n bosib lleoli yn ychwanegol heb orwario yn erbyn y gyllideb. Mae'r bid wedi ei selio ar amcan gwariant 2019/20.

Risg - gall peidio â lleoli arwain at sefyllfa lle na fyddwn yn gweithredu'n gyfreithiol lle mae asesiad risg yn dangos nad ydyw'n ddiogel iddynt barhau i fod adref. Hefyd bydd peidio ymateb yn arwain at orwariant.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**ATODIAD 2a**

**BIDIAU REFENIW 2019/20**

| **ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL (G.W.G.)** |
|---|
| **Bid 15** **Materion Gwastraff - £36,150 Parhaol**<br><br>Ymdrin â deunyddiau Ailgylchu – Mae costau cynyddol o ganlyniad i fwy o ddeunyddiau ailgylchu megis rwbel, gwastraff peryglus, coed yn y Canolfannau Ailgylchu ynghyd â chostau cynyddol i'w cludo.<br><br>Sut - byddai'r bid yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cadw fyny â'r gofyn ac ymdrin â deunyddiau ailgylchu.<br><br>Risgiau – methu â chyrraedd a chadw at dargedau statudol Llywodraeth Cymru a methu darparu gwasanaeth i drigolion Gwynedd.<br><br>Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais. |